O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 673 (Cy. 79)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2013

Gwnaed	*26 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*5 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2013.

2. — Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5